

Cyngor Celfyddydau Cymru

Canllaw i Wybodaeth

Gorffennaf 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Canllaw i Wybodaeth

Cyflwyniad

Mae hwn yn ganllaw i'r math o wybodaeth a gyhoeddir yn rheolaidd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac sydd ar gael yn hawdd i'r cyhoedd naill ai drwy ein gwefan neu ein swyddfeydd. Mae'n disgrifio'r wybodaeth yn unol â'r math o wybodaeth (dosbarthu), y fformat y mae ar gael ynddo (er enghraifft dogfen brintiedig, ar-lein neu fformat gwahanol megis Braille) a ph'un a godir tâl am y wybodaeth. Nid rhestr o gyhoeddiadau mohono, gan y byddai'n newid wrth i fwy o ddeunydd gael ei gyhoeddi. Yn hytrach, mae'n ddisgrifiad o'r dosbarthiadau neu'r mathau o wybodaeth y bwriadwn eu cyhoeddi.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynhyrchu'r Model Cynllun Cyhoeddi sy'n mynd law yn llaw â'r canllaw hwn, yn unol â gofynion Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Ddeddf yn hybu natur fwy agored a mwy o atebolrwydd ar draws y sector cyhoeddus drwy roi hawl gyffredinol i bobl weld pob math o wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n nodi eithriadau i'r hawl honno ac yn rhoi nifer o rwymedigaethau arnom, gan gynnwys dyletswydd i gynhyrchu Canllaw i Wybodaeth.

Diben y Cynllun Cyhoeddi hwn yw sicrhau bod swm sylweddol o'r wybodaeth sydd gennym ar gael i'r cyhoedd eisoes, heb fod angen gwneud cais penodol am wybodaeth o dan y Ddeddf. Bwriad Cynlluniau Cyhoeddi yw annog sefydliadau i gyhoeddi mwy o wybodaeth yn rhagweithiol a hybu diwylliant agored.

Dosbarthiadau o Wybodaeth a Gyhoeddir

Ein nod yw cyhoeddi cymaint o wybodaeth â phosibl. Mae'r wybodaeth hon wedi ei grwpio i gategoriâu a nodwyd yn y Model Cynllun Cyhoeddi.

1 Pwy ydym a beth a wnawn

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ein sefydliad, lleoliadau a chysylltiadau, rheolaeth gorfforaethol a chyfreithiol.

Fframwaith Deddfwriaethol a Strwythur Llywodraethol

Nodir ein cylch gwaith a'n hamcanion i ryw raddau gan weithredu deddfwriaethol. Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys y dogfennau sy'n croniclo'r ddeddfwriaeth hon ers trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y sefydliad o'r Swyddfa Gymreig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Er enghraifft: Y Siarter Frenhinol; Dogfen y Fframwaith; Cyfarwyddiadau Loteri; Cod Arfer Gorau; Trefn Gwyno; Llythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru; Rhyddid Gwybodaeth; Diogelu Data.

2 Beth rydym yn ei wario a sut rydym yn ei wario

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ariannol ynghylch ein hincwm arfaethedig a'n hincwm gwirioneddol

Adnoddau Ariannol

Er enghraifft: Cyfrifon a Archwiliwyd; Llythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru

Adroddiadau Blynyddol

Adroddiadau a ffigurau blynyddol

Manylion grantiau a ddyfarnwyd

3 Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn gweithredu

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am strategaethau a pherfformiadau, cynlluniau, asesiadau ac adolygiadau

Cynlluniau a Strategaeth

Ein prosesau datblygu a chynllunio strategol.

Er enghraifft: Cynllun Corfforaethol; Cynllun Gweithredol; Cynllun Camau Gweithredu Cydraddoldeb Strategol

4 Sut rydym yn gwneud penderfyniadau

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am gynigion polisi a phenderfyniadau, prosesau gwneud penderfyniadau, meini prawf a gweithdrefnau mewnol, ymgynghoriadau.

Cyfarfodydd

Er enghraifft: Mae agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor ar gael ar gyfer y 12 mis diwethaf.

Dogfennau Ymgynghori

5 Ein bolisiau a'n gweithdrefnau

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am ein protocolau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflenwi ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau

Cyngor a chanllawiau ariannu

Gwybodaeth am ein dulliau ariannu i gefnogi pob agwedd ar y celfyddydau yng Nghymru.

Er enghraifft: Canllawiau; Cwestiynau a Ofynnir yn Aml; Arolwg Blynyddol o Bortffolio Celfyddydol Cymru; Canllaw Grantiau Cyfalaf; Amodau Safonol Grantiau, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Adnoddau Dynol

Dim ond drwy wneud cais uniongyrchol i ad@celf.cymru y gellir gofyn am bolisiau a gweithdrefnau.

6 Rhestri a chofrestr

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth a gedwir mewn cofrestr sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a rhestri a chofrestr eraill sy'n ymwneud â'n swyddogaethau.

Trefn a Strwythur

Manylion ein strwythurau gweithredol cyfredol, gan gynnwys rhestri staff a chylch gwaith y Cyngor a'i Bwyllgorau.

Er enghraifft: Rhestrau Cyswllt; Strwythur; Rhestr o Aelodau'r Cyngor; Rôl y Cyngor.

7 Y gwasanaethau a gynigiwn

Mae'r adran hon yn cynnwys cyngor ac arweiniad, llyfrynnau a thafleuni, trafodion a datganiadau i'r wasg, a disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigiwn.

Gwasanaethau

Er enghraifft: Aelodaeth a Threfniadaeth y Cynllun Casglu; Teithio Cymunedol a chynllun Noson Allan, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Dylunio a Brandio

Canllawiau Brand Cyngor Celfyddydau Cymru

Datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau eraill

Cyhoeddiadau ac Ymchwil

Digwyddiadau

Cost a Fformat Cyhoeddiadau yn y Cynllun Cyhoeddi

Mae'r Cynllun Cyhoeddi ei hun ar gael i'r cyhoedd am ddim, naill ai fel dogfen y gellir ei llwytho i lawr o'n gwefan, neu fel copi caled o

Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Ffôn: 0845 873 4900

SMS: 07797 800504

(Codir tâl am negeseuon yn ôl eich graddfa rhwydwaith safonol yn unig)

Mae gwybodaeth sydd ar gael o dan y Cynllun hefyd ar gael am ddim, oni nodir fel arall. Gellir llwytho'r rhan fwyaf o ddeunydd y cyfeirir ato yn ein Cynllun i lawr o'n gwefan, neu fel arall, anfonwch neges e-bost at Llywodraethu@celf.cymru i ofyn am gopi printiedig.

Mae'n debygol y codir tâl os gofynnir am fwy nag un copi caled er mwyn talu am gost adalw, llungopïo a phostio. Os bydd angen i chi dalu am eich cais byddwn yn rhoi gwybod i chi am hynny cyn gwneud y gwaith.

Bydd gwybodaeth electronig, gwybodaeth brintiedig neu wybodaeth a gyhoeddwyd ac unrhyw gyfryngau eraill sydd ar gael yn nodi'r pris prynu cyhoeddedig.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i roi gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn ymdrechu i roi gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill megis Braille, ar gais.

Hawlfraint

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn berchen ar hawlfraint y cyhoeddiadau ar ei wefan heblaw lle y nodir fel arall. Gellir cynhyrchu deunydd sydd o dan hawlfraint at ddefnydd personol neu fewnol heb ganiatâd ffurfiol na thâl. Ni chaniateir atgynhyrchu ar gyfer gwerthu neu at ddibenion masnachol eraill heb gael caniatâd ysgrifenedig ffurfiol gennym ni. Rydym yn cadw'r hawl i godi breindal pan wneir mwy nag un copi at ddibenion masnachol. Rhaid i ddefnyddwyr cyhoeddiadau lle nad Cyngor y Celfyddydau yw perchnogion yr hawlfraint barchu'r amodau a nodir gan berchennog yr hawlfraint.

Cael gafael ar Wybodaeth nas cynhwyswyd yn y Cynllun Cyhoeddi

O'r 1^{af} Ionawr 2005, mae hawl gan y cyhoedd o dan y Ddeddf i ofyn am weld unrhyw wybodaeth sydd gan Gyngor y Celfyddydau, nad yw ar gael eisoes drwy ei Gynllun Cyhoeddi. Yn amodol ar unrhyw eithriadau a allai fod yn gymwys, mae dyletswydd ar Gyngor y Celfyddydau i roi'r wybodaeth hon o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn cais ysgrifenedig am wybodaeth.

Pan fydd gwybodaeth y gofynnir amdani yn destun un o'r eithriadau o dan y Ddeddf, gallwn gadw'r wybodaeth yn ôl a'ch hysbysu o'n rhesymau dros wneud hynny. Os hoffech gwyno bod gwybodaeth yn cael ei dal yn ôl, gweler yr Adran isod 'Adolygiad o benderfyniad yn ymwneud â pheidio â datgelu gwybodaeth'.

Gellir cyfeirio ceisiadau am wybodaeth nad ydyw ar gael drwy'r Cynllun Cyhoeddi at Llywodraethu@celf.cymru neu at:

Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Chydymffurfio
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute,
Caerdydd CF10 5AL

Gellir darllen canllawiau pellach ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gwneud cais am wybodaeth ar ein gwefan www.celf.cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â:

The Information Commissioner's Office
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaerlleon SK9 5AF
www.informationcommissioner.gov.uk
Ffôn: 01265 545545

Adolygiad o Benderfyniad yn Ymwneud â Pheidio â Datgelu Gwybodaeth

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu Gweithdrefn Gwyno. Os ydych o'r farn nad ymdriniwyd yn iawn â'ch cais am wybodaeth, efallai y dymunwch gwyno a bydd ein hymateb i'ch cais cychwynnol yn eich hysbysu o'r broses hon. Gellir llwytho ein Gweithdrefn Gwyno i lawr o'n gwefan, ac mae hefyd ar gael yn y Cod Ymarfer Gorau, sydd hefyd ar ein gwefan. Fel arall, cyfeiriwch eich cwyn yn ysgrifenedig at:

Prif Weithredwr
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd CF10 5AL

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr Adolygiad Mewnol, gallwch gwyno wedyn wrth y Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a nodwyd yng nghyflwyniad y Cynllun hwn.

Adolygiadau

Gellir diweddarau gwybodaeth a gynhwyswyd yn Nosbarthiadau'r Cynllun Cyhoeddiadau fel y bo'r angen. Cyhoeddwyd ein Cynllun Cyhoeddi am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2002 ac mae'r Model Cynllun Cyhoeddi, ynghyd â'r canllaw hwn, yn weithredol hyd y nodir fel arall.
Mae Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Chydymffurfio'r Cyngor yn gyfrifol am y gwaith dyddiol o gadw a chynnal y Cynllun.

Croesewir sylwadau ac argymhellion mewn perthynas â'r canllaw hwn. Dylid cyfeirio sylwadau at:

Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Chydymffurfio
Cyngor Celfyddydau Cymru,
Plas Bute,
Caerdydd CF10 5AL

Llywodraethu@celf.cymru